**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Farwnes Grey-Thompson
Cadeirydd
Brian Davies
Prif Weithredwr Dros Dro
Chwaraeon Cymru

17 Chwefror 2023

## Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru

Annwyl Tanni a Brian

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Chwefror 2023. Mae'r Pwyllgor, fel y mae bob tro, yn ddiolchgar i chi am eich amser i drafod y mater pwysig hwn. Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfod. Maent wedi'u hamlinellu isod.

## Uwchgynhadledd ar system chwaraeon cynhwysol

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch nodi bod Chwaraeon Cymru wedi cynnal uwchgynhadledd ym mis Rhagfyr 2022 ar hybu chwaraeon gynhwysol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhestr o'r sefydliadau a ddaeth i'r uwchgynhadledd honno, yn ogystal â'r agenda ar gyfer yr uwchgynhadledd.

## Honiadau o ymddygiad amhriodol mewn chwaraeon eraill

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael amlinelliad o nifer y cwynion neu adroddiadau yn ymwneud â honiadau o gasineb at fenywod, rhywiaeth, hiliaeth neu homoffobia a ddaeth i law Chwaraeon Cymru yn ymwneud â chyrff llywodraethu cenedlaethol eraill yn ystod y pum mlynedd flaenorol. Dylai hyn gynnwys unrhyw asesiadau a wnaed gan Chwaraeon Cymru o unrhyw batrymau i'r honiadau hyn, ac unrhyw gamau a gymerwyd gan Chwaraeon Cymru.

## Pwerau ymyrryd

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd yn helaeth rôl a grym Chwaraeon Cymru i ymyrryd mewn achosion o'r fath. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech amlinellu o dan ba amgylchiadau y byddai Chwaraeon Cymru yn cyfyngu ar y cyllid y mae'n ei ddarparu i gyrff llywodraethu cenedlaethol. A allech chi hefyd amlinellu pa amodau sydd ynghlwm wrth y cyllid y mae Chwaraeon Cymru yn ei roi i gyrff llywodraethu cenedlaethol?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb erbyn 12.00 ddydd Gwener 3 Mawrth 2023.

Yn gywir



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.